# Canllaw Dylunio Caffis Stryd Caerdydd

06 Ebrill 2021



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# 1. Cyflwyniad

1.1 Gall caffis stryd wneud cyfraniad cadarnhaol i ganol y ddinas, Bae Caerdydd a chanolfannau ardal/lleol drwy ychwanegu bywiogrwydd, lliw, bywyd a diddordeb i'r strydlun. Gallant helpu i wneud y defnydd gorau posibl o fannau cyhoeddus, cynorthwyo'r economi leol ac ychwanegu at y cyfleusterau sydd ar gael i bobl sy'n ymweld â'r ddinas, ac sy'n byw ac yn gweithio ynddi.

1.2 Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i fusnesau ar greu caffis stryd o ansawdd uchel sy'n cyfrannu at gymeriad a golwg ardal, tra'n diogelu defnyddwyr priffyrdd a'u gallu i symud drwy ardal heb gael eu llesteirio.

1.3 Rhaid ystyried y Canllaw Dylunio hwn cyn cyflwyno cais am drwydded caffi stryd a chyn prynu dodrefn caffi stryd.

1.4 Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â chaffis stryd ar y briffordd yn unig. Nid yw caffis ar dir preifat yn dod o dan y canllaw hwn. Nid oes angen trwydded caffi stryd arnynt, er y bydd angen caniatâd cynllunio arnynt. Dylech holi'r Cyngor i sefydlu statws y tir dan sylw. Mae'n bosibl bod tir yr ystyriwch ei fod yn breifat wedi dod yn briffordd os yw'r cyhoedd wedi mwynhau mynediad drosto am o leiaf ugain mlynedd, neu os yw'r Cyngor wedi mabwysiadu'r tir yn ffurfiol.

## Trwydded Caffi Stryd

1.5 Cyn y gallwch osod caffi stryd ar y briffordd, rhaid i chi gael trwydded gan y Cyngor yn gyntaf. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Trwyddedau/Ffyrdd-a-phriffyrdd/Trwydded-caffi-stryd/Pages/default.aspx

1.6 Rhaid i chi ddarllen **Trwydded Caffi Stryd Caerdydd – Telerau ac Amodau** cyn gwneud cais

1.7 Os ydych yn dymuno gweini alcohol i'w yfed yn yr ardal sydd wedi ei diffinio ar gyfer eistedd, bydd angen trwydded safle arnoch sy'n caniatáu gwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar yr ardal ddiffiniedig honno





## Diffiniad

1.8 Diffinnir caffi stryd fel unrhyw grŵp o fyrddau, cadeiriau ac ategolion cysylltiedig a gynhelir o fewn y briffordd fabwysiedig, y'u bwriedir at ddibenion bwyta bwyd neu ddiodydd gan gwsmeriaid ac wedi'i leoli gerllaw sefydliad bwyd a diod sydd â'r un gweithredwr.

1.9 Mae elfennau nodweddiadol caffi stryd yn cynnwys rhwystrau amgáu, blychau plannu, byrddau, cadeiriau a pharasolau.

## Dylunio Da

1.10 Er yr anogir darparu caffis stryd, mae'n bwysig eu bod wedi'u cynllunio a'u rheoli/cynnal a'u cadw'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel a ddisgwylir yng Nghaerdydd.

1.11 Rhaid i gaffis stryd wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at eu hamgylchoedd a gweddu â hwy, yn enwedig o fewn lleoliad adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

## Dros Dro yn eu Hanfod

1.12 Mae caffis stryd yn eu hanfod yn rhai dros dro ac ni ddylid eu gosod yn barhaol ar y briffordd fabwysiedig, ni ddylent dreiddio i arwyneb y briffordd ac ni ddylid eu cysylltu ag unrhyw adeilad. Rhaid eu symud yn rhwydd heb greu difrod i wyneb y briffordd.

1.13 Nid yw rhoi trwydded i weithredu caffi stryd yn awgrymu hawl unigryw i'r ardal. Rhaid i weithredwr y caffi fod yn ymwybodol bod y Cyngor yn cadw'r hawl i gael mynediad i ardal caffi'r stryd ar gyfer glanhau, trwsio a chynnal a chadw'r briffordd neu ddodrefn stryd. Efallai y bydd angen i sefydliadau eraill, megis ymgymerwyr statudol, hefyd ofyn am fynediad i gynnal a chadw ac atgyweirio eu hoffer. Felly, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal y drwydded dros dro, am unrhyw reswm, os bydd hynny’n angenrheidiol.

## Storio Offer

1.14 Wrth ddylunio caffi stryd, bydd angen ystyried lle caiff y dodrefn eu storio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Y tu allan i oriau trwyddedig, rhaid storio'r holl rwystrau a dodrefn caffi stryd* o fewn y safle cysylltiedig ac oddi ar y briffordd gyhoeddus. Ni ddylid rhwystro llwybrau mynediad ac allanfeydd o fewn safleoedd, gan gynnwys i eiddo cyfagos (e.e. i fyny'r grisiau).

1.15 *Gellir storio blychau plannu y tu allan i'r safle, ond rhaid eu lleoli'n ddiogel yn erbyn ffryntiad y safle, rhaid iddynt beidio ag ymestyn mwy nag 1m i'r droedffordd ac ni ddylent rwystro mynediad i, na gadael y safle, nac o ran eiddo cyfagos.





*Diagram 1: Storio blychau plannu y tu allan i safleoedd*

## Digwyddiadau Mawr

1.16 Ar gyfer rhai digwyddiadau mawr, megis gorymdeithiau, cyngherddau neu gemau chwaraeon, efallai y gofynnir i chi, am resymau diogelwch a diogelwch y cyhoedd, gael gwared ar eich holl ddodrefn a chyfarpar awyr agored tra bo'r digwyddiad yn mynd rhagddo, hyd yn oed os yw o fewn amseroedd oriau eich trwydded. Os ydych fel arfer yn storio'r dodrefn y tu mewn i'ch safle, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud trefniadau amgen ar gyfer storio wrth i chi barhau i fasnachu. O dan yr amgylchiadau hyn nid oes ad-daliad ar gael ar ffi'r drwydded.

## Hysbysebu ac Arwyddion

1.17 Mae hysbysebu/arwyddion ar gaffis stryd wedi'i gyfyngu i enw/logo'r sefydliad yn unig. Ni ddylid eu defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynhyrchion a werthir. Anogir y defnydd o arwyddion Cymraeg a dwyieithog. (Gallwch gysylltu â Caerdydd-Ddwyieithog@caerdydd.gov.uk os am gyngor pellach ar hyn).

1.18 Rheolir hysbysebion drwy gyfrwng Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992.

## Rheoli a Chynnal a Chadw

1.19 Bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am lendid ardal y caffi stryd bob amser. Rhaid cymryd gofal hefyd i sicrhau nad yw sbwriel yn mynd ar grwydr nac yn cael ei chwythu ymhellach i ffwrdd. Rhaid cadw arwynebedd o tua phum metr o amgylch y safle yn glir o unrhyw sbwriel sydd ar ddisberod neu sbwriel sydd wedi ei chwythu gan y gwynt o gaffi'r stryd.

1.20 Rhaid sgubo ardal y caffi stryd pan fo angen i'w gadw'n glir o sbwriel a gwastraff. Rhaid clirio gollyngiadau hylif ac unrhyw falurion, yn enwedig gwydr a llestri, ar unwaith. Rhaid golchi'r caffi stryd yn drylwyr ar ddiwedd pob diwrnod masnachu a rhaid clirio pob olion sigaréts a gaiff eu taflu.

1.21 Rhaid i staff y safle wirio lleoliad dodrefn a rhwystrau y caffi stryd o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid wedi symud eitemau y tu hwnt i osodiad cymeradwy'r caffi.

1.22 Atgoffir trwyddedeion y gall defnyddio caffis stryd yn gyffredinol achosi sŵn/aflonyddwch a bod angen parchu busnesau a phreswylfeydd eraill gerllaw. O ran yr egwyddor 'cyfrwng newid', lle cynigir caffi stryd, cyfrifoldeb y trwyddedai yw sicrhau yr eir i'r afael ag atebion i liniaru sŵn drwy ei gynigion a sicrhau (lle rhoddir trwydded) ei fod yn glynu wrthynt yn ystod y gweithrediad dilynol (gall hyn, er enghraifft, gynnwys oriau gweithredu). Gall methu â mynd i'r afael ag effeithiau o'r fath arwain at wrthod, atal, terfynu neu beidio ag adnewyddu'r drwydded.

## Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

1.23 Bydd yn ofynnol i'r Drwydded indemnio'r Cyngor yn erbyn yr holl gamau gweithredu, gofynion, costau, taliadau neu dreuliau sy'n deillio o ddefnyddio'r briffordd o dan y caniatâd a roddwyd. Felly, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trwyddedai gymryd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti am o leiaf £5,000,000. Rhaid amgáu manylion yswiriant atebolrwydd trydydd parti gyda chais am drwydded caffi stryd.

# 2. Cynllun Caffi Stryd

2.1 Bydd maint a chynllun caffi stryd yn dibynnu ar nodweddion yr ardal y tu hwnt i'r safle, gan ystyried anghenion defnyddwyr eraill. Rhaid i gaffi stryd:

a) feddiannu'r ardal yn uniongyrchol o flaen ac yn ffinio â safle'r ymgeisydd*[1]
b) fod yn weladwy o'r safle hwn
c) peidio ymestyn y tu hwnt i led ffryntiad yr ymgeisydd
d) peidio â rhwystro llwybrau mynediad i/o adeiladau cyfagos neu safle'r ymgeisydd
e) peidio â rhwystro parcio ymyl y ffordd, mannau llwytho, arosfannau bysiau, mynediad i gerbydau brys, allanfeydd brys, cyrbau isel na chroesfannau i gerddwyr
f) peidio â rhwystro defnydd rhesymol o'r briffordd i gerddwyr

**Gofod Symud Di-rwystr i Gerddwyr**

2.2 Ni chaiff cynigion caffis stryd lesteirio'r defnydd rhesymol o'r briffordd fabwysiedig a rhaid i'r llwybrau sydd ar gael i gerddwyr fod yn syml, yn amlwg ac yn ddi-rwystr. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl â nam ar eu golwg a phobl â chadeiriau gwthio.

2.3 Ar strydoedd sydd â chynllun troedffordd/ffordd traddodiadol, rhaid sicrhau gofod di-rwystr rhwng y ffordd ei hun a blaen y caffi stryd er mwyn caniatáu i gerddwyr fynd heibio'n ddiogel bob amser. Lle ceir llawer iawn o ddodrefn stryd, caiff y gofod di-rwystr ei fesur o ymyl y dodrefn stryd yn hytrach nag ymyl y ffordd.

2.4 Bydd faint o le di-rwystr sydd ei angen yn gymesur â lefelau nifer y cerddwyr yn yr ardal. Gall hyn olygu yr ystyrir na fydd rhai strydoedd (neu rannau ohonynt) yn addas at ddefnydd caffi stryd.




*Diagram 2: Cynnal gofod symud di-dor i gerddwyr*

2.5 Mewn strydoedd i gerddwyr, bydd faint o ofod di-rwystr sydd ei angen yn gymesur â lefelau nifer y cerddwyr a bydd gofyn ystyried llwybrau mynediad cerbydau gwasanaethau brys drwy'r ardal. Lle bo'n bosibl/briodol, bydd dyfnder y caffi yr un mor gytbwys/ddosranedig ar ddwy ochr y stryd.





*Diagram 3: Coridor di-rwystr â chaffis stryd sydd â'r un cytbwysedd o ran dyfnder*

2.6 Mewn rhannau o strydoedd i gerddwyr lle ceir dodrefn stryd neu rwystrau eraill, bydd angen i ran o'r gofod di-rwystr fod o led addas ar gyfer cerbydau gwasanaethau brys a bydd angen iddo fod yn rhan o goridor cysylltiedig parhaus.





*Diagram 4: Cynnal coridor mynediad cerbydau brys heibio i rwystr*

2.7 Ym mhob amgylchiad, mae'n bwysig nad oes unrhyw rwystrau fel byrddau, cadeiriau, blychau plannu neu rwystrau yn cael eu gosod y tu allan i'r ardal drwyddedig.

## Categorïau Gosodiad

2.8 Gellir nodi priodweddau ardal a dyluniad/lleoliad cysylltiedig caffi stryd yn fras o fewn pedwar categori o ofod stryd neu ofod cyhoeddus:

a) Categori A: Strydoedd â phatrwm troedffyrdd/ffyrdd traddodiadol
b) Categori B: Strydoedd traddodiadol lle mae troedffyrdd wedi'u lledu
c) Categori C: Strydoedd i gerddwyr a mannau cyhoeddus
d) Categori D: Lleoliadau anghysbell (dim ond i'w hystyried mewn amgylchiadau eithriadol)

### Categori A: Strydoedd gyda Phatrwm Troedffyrdd/Ffyrdd Traddodiadol:

2.9 Yn y rhan fwyaf o strydoedd mawr traddodiadol, efallai mai dim ond lle i ddarparu ar gyfer un rhes o fyrddau bach ar ffurf bistro sydd (pob un â dim mwy na dwy gadair) y tu allan i'r safle. Mae angen pellter o 0.75m-1.0m o wyneb blaen yr adeilad er mwyn bod lle boddhaol ar gyfer bwrdd bach â dau berson yn eistedd. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid gosod rhwystr wrth ymyl y bwrdd/cadeiriau ac ar ymylon blaen ardal y caffi.



*Diagram 5: Caffi 1m o ddyfnder gyda blychau plannu addurniadol ar ymylon blaen ardal y caffi.*

### Categori B: Strydoedd Traddodiadol gyda Throedffyrdd Wedi'u Lledu:

2.10 Mewn amgylchiadau lle bydd caffi stryd yn ymestyn mwy nag 1 metr i'r droedffordd, caiff ei amgáu gan rwystrau di-dor sy'n gadarn, y gellir eu symud a'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.



*Diagram 6: Caffis stryd gyda rhwystrau yn ymestyn mwy nag 1m i'r droedffordd*

### Categori C: Strydoedd i Gerddwyr a Mannau Cyhoeddus

2.11 Mewn amgylchiadau lle mae caffi stryd yn ymestyn mwy nag 1 metr i stryd i gerddwyr neu fan cyhoeddus, caiff ei amgáu gan rwystrau di-dor sy'n gadarn, y gellir eu symud a'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.



*Diagram 7: Caffis stryd gyda rhwystrau yn ymestyn mwy nag 1m i'r gofod i gerddwyr.*

## Categori D: Lleoliadau Anghysbell (Mewn Amgylchiadau Eithriadol)*[1]

2.12 Rhaid i gaffi stryd ffinio â safle'r ymgeisydd er mwyn helpu i gynnal cyfrifoldeb/perchnogaeth dros yr ardal ac osgoi gwrthdaro rhwng prif lwybrau symud cerddwyr ar hyd y stryd a staff/cwsmeriaid sy'n defnyddio ardal y caffi.

2.13 Cydnabyddir y gallai fod yn briodol mewn rhai strydoedd i leoli caffi'r stryd i ffwrdd o'r safle a'i alinio rhwng coed stryd/dodrefn stryd ar ymyl y ffordd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff hyn ei ystyried a byddai angen ei gymhwyso i bob cynnig ar hyd y stryd er mwyn cynnal cysondeb i gerddwyr sy'n symud drwy'r ardal. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen darparu rhwystr di-dor o amgylch y caffi stryd cyfan.

2.14 Byddai angen cynnal troedffordd ddi-rwystr rhwng ymyl blaen y caffi stryd a ffryntiad y safle.





*Diagram 8: Caffis stryd ar ymyl ffordd, gan gynnal troedffordd ddi-rwystr.*

2.15 Ni cheir lleoli caffis stryd mewn ardaloedd lle byddent yn rhwystro llinellau gweld gyrwyr neu’n cuddio arwyddion priffyrdd.

2.16 Ym mhob categori (A-D), byddai gofyn cael caniatâd penodol yr eiddo cyfagos y mae'r cynnig yn effeithio arno ar gyfer unrhyw gynnig i ymestyn caffi stryd y tu hwnt i led eich ffryntiad eich hun.

## Llwybrau Mynediad a Gofod Cylchredeg

2.17 Rhaid cynnal llwybr clir ac uniongyrchol rhwng mynedfa’r caffi stryd a mynedfa'r safle. Rhaid cynnal hyn hefyd ar gyfer unrhyw lwybrau i eiddo cyfagos (e.e. i fyny'r grisiau).

2.18 Rhaid i'r cynlluniau ddarparu digon o le cylchredeg mewnol i staff a chwsmeriaid gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai sydd â bygis.





*Diagram 9: Cynnal llwybr clir ac uniongyrchol i fynedfa'r safle*

# 3. Dulliau Amgáu

## Rhwystrau

3.1 Ffafrir y rhwystr caffi safonol sy'n cynnwys baner ffabrig a system bost/rheilen gysylltiedig. Byddant:

a) wedi eu cynhyrchu o ffabrig gwydn a hirhoedlog ar gyfer y faner
b) wedi'u diogelu'n briodol gan system bost a rheilen bwrpasol gyda seiliau pyst trwm i atal cael eu bwrw neu eu chwythu drosodd
c) wedi eu darparu â rheilen lorweddol uchaf ac isaf sefydlog, sy'n cadw'r faner dan densiwn perffaith. Bydd y rheilen lorweddol is ddim mwy na 200mm uwchlaw'r ddaear, er mwyn gweithredu fel rheilen dapio y gall cerddwyr â nam ar eu golwg ei defnyddio i lywio o amgylch y caffi stryd gan ddefnyddio ffon hir
d) o fewn ystod uchder o 700-1000mm, er mwyn peidio â rhwystro'r gallu i weld lawr y stryd neu beri perygl baglu
e) wedi eu cynllunio i'w cysylltu ynghyd a/neu â blychau plannu, er mwyn darparu modd amgáu di-dor




*Diagram 10: Rhwystr Dangosol*

3.2 O ran elfennau dylunio, rhaid i rwystrau caffi stryd ategu cymeriad yr ardal gyfagos. Nid ystyrir bod defnyddio acryligau/plastigau sgleiniog a deunyddiau dalennog rhy ddisglair/adlewyrchol yn dderbyniol. Rhaid i faneri fod o un dyluniad, mewn arddull blaen, gan ymgorffori enw'r busnes neu logo'r brand yn unig. Dylai pyst a rheiliau fod yn rai dur di-staen, wedi'u platio â chrôm neu â chôt bowdr polyester.

3.3 Rhaid nodi:

a) Nid ystyrir bod rhwystrau rhaff na strwythurau eraill nad ydynt yn rai cadarn yn dderbyniol
b) Nid ystyrir bod rhwystrau torfeydd yn dderbyniol
c) Nid ystyrir bod ffensys polion na math ransh yn dderbyniol
d) Ni chaiff bonion rhwystrau beri rhwystr na chreu perygl baglu i gerddwyr

## Blychau Plannu

3.4 Mae blodau, planhigion, coed a gwyrddni amgen yn cynnig cyferbyniad â strydoedd caled dinas ac mae hynny i'w groesawu. Gallant helpu i feddalu'r dirwedd drefol a gwneud ardaloedd yn fwy deniadol a dymunol o ran estheteg, sydd yn ei dro yn annog pobl i dreulio amser yn y lleoedd hyn.

3.5 Caiff mwy o wyrddni mewn dinasoedd hefyd effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd. Gall planhigion a choed helpu i reoleiddio ansawdd aer a'r hinsawdd, gwrthweithio effeithiau cynhesu arwynebau palmantog a lleihau lefelau llygredd sŵn.

3.6 Gall blychau plannu sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda helpu i wella cymeriad a golwg caffi stryd a rhaid iddynt ffurfio o leiaf 25% o'r modd amgáu. Gellir eu darparu yng nghorneli caffi stryd, neu fynedfa iddo (pan fyddant wedi'u hintegreiddio â baneri ffabrig), neu eu defnyddio i ddarparu ymyl di-dor. Ar gyfer caffis stryd sy'n llai nag 1m o ddyfnder, gellir eu defnyddio i ddiffinio ymyl flaen yr ardal.



*Diagram 11: Blwch Plannu Dangosol*

3.7 Rhaid i flychau plannu gynnwys planhigion hyfyw sy'n fyw ac iach ac ni ddylid eu gadael yn wag. Byddant:

a) o fewn ystod uchder o 700-1000mm, er mwyn peidio â rhwystro gweld i lawr y stryd neu achosi perygl baglu
b) wedi eu gosod ar olwynion (â brêcs) i'w galluogi i gael eu gosod yn ddiogel yn eu lle a'u storio y tu mewn neu yn erbyn y safle ar ddiwedd y diwrnod busnes
c) ag ymyl gwaelod na fydd yn uwch na 200mm uwchlaw'r ddaear, er mwyn gweithredu fel rheilen dapio y gall cerddwyr â nam ar eu golwg ei defnyddio i lywio o amgylch y caffi stryd gan ddefnyddio ffon hir
d) wedi eu cadw'n rhydd o sbwriel a malurion gan ddeiliad trwydded y caffi stryd
e) wedi eu cynnal a'u cadw'n dda a'u dyfrio'n rheolaidd gan ddeiliad trwydded y caffi stryd

3.8 O ran elfennau dylunio, mae blychau plannu yn ategu cymeriad yr ardal gyfagos. Mae'r gorffeniadau a awgrymir yn cynnwys; metel a chôt o bowdr polyester, pren caled wedi'i staenio, ei baentio neu ei farneisio a phlastig di-sglein wedi'i ailgylchu.

3.9 Er mwyn cynnal ymddangosiad agored y stryd, ni chaiff unrhyw ran o strwythur y blwch plannu fod yn uwch na 1000mm. Gall planhigion fod hyd at 1800mm o uchder (o'u mesur o lefel y ddaear), ond rhaid i'r dyluniad/gosodiad cyffredinol gynnal golygfeydd agored i mewn ac allan o'r caffi stryd.

# 4. Dodrefn

4.1 Rhaid i ddodrefn caffi stryd fod o ansawdd uchel, yn unffurf eu steil a bod modd symud y dodrefn i mewn/allan o'r safle. Rhaid iddynt fod wedi eu cynllunio at ddefnydd masnachol a chydymffurfio â'r holl safonau BS EN perthnasol.

4.2 Bydd y dodrefn a'r ffitiadau yn:

a) addas i'r diben ac wedi'u cynllunio'n benodol at ddefnydd awyr agored masnachol
b) ansawdd uchel, cryf, sefydlog, gwydn ac addas i'w defnyddio'n drwm
c) hawdd eu cadw'n lân, eu sychu â gwlanen a'u sychu ar ôl glaw neu lanhau
d) cael eu cadw mewn trefn dda; rhaid tynnu eitemau sydd wedi'u difrodi neu sydd wedi pylu nes eu hatgyweirio i'w cyflwr gwreiddiol
e) cael eu symud bob nos a'i storio o fewn y safle
f) ddigonol o ran eu pwysau er mwyn osgoi cael eu chwythu drosodd neu ymaith
g) unffurf eu harddull ac o ddyluniad cyfoes neu glasurol syml, fel sy'n briodol i'r lleoliad
h) cael eu lleoli fel na fyddont yn bargodi y tu hwnt i ffin y caffi na chuddio llinellau gweld cerbydau na chuddio arwyddion traffig

### Byrddau a Chadeiriau

4.3 Caniateir caffis stryd dim ond pan fo'r rheiny at y diben o roi pobl i eistedd wrth fyrddau. Rhaid gosod traed rwber ar fyrddau a chadeiriau i leihau sŵn wrth symud a difrod posibl i arwynebau palmantog. Rhaid bod ganddynt ymylon crwn i alluogi cerddwyr i basio'n ddiogel a rhaid iddynt fod ar batrwm bwyta safonol fel bod modd i bawb eu defnyddio.

4.4 Mae'n bosib y caniateir ychydig o fyrddau uchel, ond dim ond pan fo'r rheiny â seddi cysylltiedig. Ni ddylai'r rhain fod yr unig fath neu'r mwyaf niferus o'r byrddau a chadeiriau sydd ar gael.

4.5 Ni chaniateir na meinciau picnic.

4.6 Y gorffeniadau a ffefrir yw crôm, alwminiwm wedi ei frwsio neu bowdr polyester di-sglein ar gyfer gwaith metel a phren caled wedi'i staenio ar gyfer elfennau coed. Gellir hefyd ystyried byrddau bwyta a chadeiriau cyfandirol o ansawdd uwch.

### Parasols

4.7 Bydd parasols wedi eu diogelu'n briodol gan bwysau palmant a gynlluniwyd yn bwrpasol er mwyn osgoi cael eu chwythu drosodd, o faint addas o ystyried cyfyngiadau'r gofod gan feddu ar gliriad canopi o 2.3m (wedi'i fesur o lefel y ddaear). Rhaid iddynt fod o un lliw a naill ai heb eu brandio, neu'n ymgorffori enw/logo'r busnes yn unig.

4.8 Ni chaniateir unrhyw fath o gazebo neu gysgodlen amgáu.

### Gorchuddion Llawr

4.9 Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r briffordd ac ni ddylid gosod gorchuddion dros ofod y caffi stryd. Gwaherddir platfformau, tyweirch artiffisial, paent, neu garped mewn ardaloedd caffi stryd.

### Gwresogyddion Allanol

4.10 Nid argymhellir defnyddio gwresogyddion allanol. Os yw'r Trwyddedai yn dymuno defnyddio gwresogyddion allanol, nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd drostynt a chyfrifoldeb y Trwyddedai yw asesu goblygiadau iechyd a diogelwch gosod y gwresogyddion dan sylw.

# 5. Enghraifft o Arfer Gorau:




*Diagram 12: Enghraifft Arfer Gorau*

5.1 Mae’r caffis stryd wedi eu hamgáu gan flychau plannu a rhwystrau sydd o ddyluniad cyson ac sy'n mesur 1m o uchder.

5.2 Mae gan y rhwystrau far llorweddol ar y bôn a’r brig i gynnig canllaw a rheilen dapio.

5.3 Blychau plannu yw mwy na 25% o'r rhwystrau amgáu ac maent yn cynnwys planhigion sy’n hyfyw, byw ac iach, ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.

5.4 Nid yw'r parasolau'n ymestyn y tu hwnt i ardal y caffi; nid ydynt wedi'u brandio ac maent o’r un lliw gan ategu'r rhwystrau.

5.5 Nid oes hysbysebion ac eithrio enw'r sefydliad, sydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

5.6 Mae'r byrddau a'r cadeiriau o arddull unffurf ac mae ganddynt draed rwber er mwyn lleihau sŵn a'r potensial i ddifrodi palmentydd

5.7 Mae holl ddodrefn y caffi stryd wedi'u cynllunio at ddefnydd masnachol ac maent yn cydymffurfio â'r Safonau BS EN perthnasol.

5.8 Mae llwybr clir i fynedfa'r adeiladau a digon o le cylchredeg o fewn ardal y caffi.

5.9 Nid oes unrhyw gaffi yn ymestyn y tu hwnt i led ei ffryntiad ei hun ac mae llwybr troed clir/di-dor wedi'i gynnal ar hyd y stryd.

CARDIFF
CAERDYDD